Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 6ed Chwefror 2024

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Jane Pierce a gair o weddi gan Gareth W Griffiths

Presennol - Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Emma Chappell, Elwyn Jones, Gareth Griffiths, Phyllis Ellis, Sasha Williams, Dawn Parry, Elen George, Gareth Hughes ac ymunodd Lowri James dros y we

Ymddiheuriadau - Ynyr Parri, Idris Thomas, Rhian Evans-Hill

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 9fed Ionawr 2024

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Elwyn Jones (1) Ellen George (2)

Materion o'r Cofnodion

Cysgodfa Bws Dinorwig - Clerc wedi cysylltu â Chontractwr am bris i ail neud y to.

Mainc i'w gosod yn Dinorwig - Dal I ddisgwyl ymateb gan Barc Padarn.

Awdit - Y clerc wedi e-bostio yn holi sawl Gwaith a heb glywed. Wedi ffonio, ac wedi trafod gydag addewid i'r adran ffonio yn ôl, ac rydym dal i ddisgwyl.

Gordyfiant Bro Elidir - Mae'r clerc wedi cysylltu eto gydag Adra, ac yn dal i ddisgwyl ymateb.

Bryn Eglwys - Dim ymateb gan Y cyngor Sir.

Giat a bin Baw Ci ger Inclein Lon Garnedd - rhywun o'r Cyngor yn Cyfarfod Elfed y Cynghorydd I gael symud y bin Baw ci.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Cysgodfa Bws Rhiwlas - Y clerc wedi cyfarfod a swyddog o Gyngor Gwynedd. Byddwn yn trefnu i osod cysgodfa yn y misoedd nesaf.

Hyfforddiant - Cais ar gynghorau i wneud defnydd o hyfforddiant Cymraeg er mwyn gwarantu eu rhedeg.

Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C24/0018/18/DT - 12 Y Ddôl, Bethel

Estyniad i'r tŷ presennol a newidiadau mewnol- Dim gwrthwynebiad

Llwybrau

Llwybr 122 Tŷ Mawr, Deiniolen

Mae'r Cyngor Cymuned mewn trafodaethau gyda'r Cyngor Sir ers oddeutu 3 blynedd ynglŷn â giât drydanol sydd wedi ei gosod gan berchennog y tŷ ar y llwybr yma. Mae'r giât wedi ei gosod yn anghyfreithlon oherwydd ei bod ar lwybr cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd Cyngor Gwynedd wedi gobeithio gallu darparu mynediad neillog gerllaw'r grid gwartheg a'r giât bresennol, ond nid oes lle digonol, felly yn amhosib. Oherwydd sefyllfa a chyflwr iechyd presennol yn y tŷ, nid oes trafodaethau pellach yn bosib ar hyn o bryd. Mae yna lwybr troed caniataol wedi ei sefydlu gan y perchennog tir, ond sylweddolir nad yw hyn yn ddatrysiad tymor hir.

Rhes Uchaf lawr I Stryd Capel, Rhiwlas

Mae'r Cynghorydd Elwyn Jones wedi ysgrifennu sawl Gwaith I'r Cyngor Sir ynglŷn â'r twll yn y tarmac ar y llwybr yma. Y cyngor Sir sydd yn gyfrifol, ac mae addewid wedi dod eu bod am roi sylw a llenwi'r twll sydd o dan droed.

Canllawiau Rhoddion a Ffurflen Gais

Wedi cryn dipyn o waith, mae'r canllawiau a ffurflen gais wedi ei dderbyn, Bydd y clerc yn anfon un i bawb a rhoddodd gais i mewn eleni. Os bydd rhywun yn dymuno rhoi cais, mae posib derbyn pecyn gan y clerc neu ar wefan y Cyngor.

Bydd gofyn i'r ceisiadau gyrraedd y clerc cyn Medi 20fed. Bydd y Cyngor yn ein cyfarfod mis Hydref yn edrych ar bob cais yn unigol, ac yn gwneud penderfyniad ar ofal neu ddiffyg rheolaeth ariannol gyllidol bob mudiad.

O Gwmpas y Bwrdd

Cysgodfa Newydd Gwaelod Bethel

Does prin ychydig o fisoedd ers i'r Cyngor Cymuned brynu a gosod y gysgodfa yn ei le - ac yn barod mae un panel wedi ei falu. Bydd panel arall yn cael ei ail osod yn fuan.

Ffosydd Lôn I Gelli gyffwrdd

Eleni, mae'r ffordd hon wedi gweld llifogydd sobor sydd wedi gweld y lôn wedi gorfod cael ei chau. Nid yw'r dŵr yn rhedeg dim gan fod y ffosydd wedi cau i gyd, Cais ar I Gyngor Gwynedd drefnu i glirio'r ffosydd fel bod dwr yn llifo.

Cadarnhau Taliadau:

674 - £5896

675 - £50